

# Tyfu Canolbarth Cymru Chwefror 2026

**Croeso i gylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer Chwefror 2026.**

Y mis hwn, rydym yn tynnu sylw at sut mae arloesedd, sgiliau a chydweithio yn parhau i gefnogi dyfodol Canolbarth Cymru. O archwilio potensial hydrogen gwyrdd i ddatgarboneiddio'r sector coedwigaeth, i gysylltu pobl ifanc â chyflogwyr lleol drwy ein peilot Cyswllt Gyrfa, mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu'r camau ymarferol sy'n cael eu cymryd i gryfhau ein heconomi ranbarthol.

Rydym hefyd yn falch o rannu mewnwelediadau gan ein partneriaid a'n grwpiau clwstwr ar ddatblygu talent peirianneg y dyfodol, ynghyd â'n cefnogaeth i Wythnos Prentisiaethau Cymru 2026, a ddangosodd rôl hanfodol prentisiaethau wrth helpu busnesau i dyfu a chreu llwybrau gyrfa cryf ledled y rhanbarth.

Ochr yn ochr â'r straeon hyn, fe welwch ddiweddariadau, cyfleoedd ac adnoddau gan sefydliadau partner sy'n gweithio ledled Canolbarth Cymru. Diolch, fel bob amser, am eich ymgysylltiad a'ch cydweithio parhaus.

[Tîm Tyfu Canolbarth Cymru]

**Cynnwys:**

- Prosiect ynni glân newydd yn archwilio hydrogen gwyrdd ar gyfer coedwigaeth gynaliadwy yng Nghanolbarth Cymru
- Podlediad Datgloi Canolbarth Cymru: arloesedd ynni glân ar waith
- Peilot Cyswllt Gyrfa yn cysylltu dysgwyr Canolbarth Cymru â chyflogwyr lleol
- Sicrhau'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr yng Nghanolbarth Cymru
- Cefnogi Wythnos Prentisiaethau Cymru 2026
- Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner

## Prosiect ynni glân newydd yn archwilio hydrogen gwyrdd ar gyfer coedwigaeth gynaliadwy yng Nghanolbarth Cymru

Mae prosiect ynni glân newydd ym Mhontarfynach, Ceredigion, wedi ymuno â phortffolio cynyddol o weithgarwch arloesi sy'n cael ei gefnogi drwy Dyfu Canolbarth Cymru, gan archwilio sut y gallai hydrogen gwyrdd a gynhyrchir yn lleol helpu i leihau allyriadau yn y sector coedwigaeth.

Dan arweiniad Challoch Energy Ltd, bydd y prosiect yn archwilio sut y gellid defnyddio ynni gwynt i gynhyrchu hydrogen gwyrdd yn lle disel mewn peiriannau a cherbydau coedwigaeth — gan gefnogi sector sy'n chwarae rhan hanfodol yn economi Canolbarth Cymru.

Darllenwch y stori llawn ar [ein wefan.]()




### Podlediad Datgloi Canolbarth Cymru: arloesedd ynni glân ar waith

Mae prosiect hydrogen gwyrdd Challoch Energy yn cael sylw yn ein podlediadau diweddaraf gyda [Business News Wales.]() Mae'r bennod yn dod â phedwar arweinydd prosiect WSRID ynghyd i archwilio sut mae atebion ynni glân yn symud o astudiaethau dichonoldeb i brofion yn y byd go iawn — a pham mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa unigryw i arwain arloesedd sydd wedi'i deilwra i economïau gwledig.

Bydd gwrandawyr yn clywed sut mae'r prosiectau hyn yn anelu at leihau allyriadau, cryfhau diwydiannau lleol, a chefnogi taith Cymru tuag at sero net — gyda chanlyniadau cynnar i'w disgwyl o 2026 ymlaen.

Gwrandewch ar y podlediad nawr: [https://businessnewswales.com/growing-mid-wales-digital-discussions/](https://businessnewswales.com/growing-mid-wales-digital-discussions/)




*1 - [https://businessnewswales.com/growing-mid-wales-digital-discussions/](https://businessnewswales.com/growing-mid-wales-digital-discussions/)*

## Peilot Cyswllt Gyrfa yn cysylltu dysgwyr Canolbarth Cymru â chyflogwyr lleol

Mae dysgwyr ledled Canolbarth Cymru yn cael cipolwg uniongyrchol ar gyfleoedd gyrfa lleol drwy beilot newydd Cyswllt Gyrfa, partneriaeth rhwng Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a Gyrfa Cymru.

Mae'r fenter hon, a arweinir gan gyflogwyr, yn cysylltu busnesau Canolbarth Cymru yn uniongyrchol ag ysgolion, gan helpu pobl ifanc i ddeall yn well yr amrywiaeth o yrfaoedd sydd ar gael yn y rhanbarth drwy weithgareddau ymarferol, rhyngweithiol sy'n adlewyrchu rolau a sgiliau byd go iawn, megis dylunio ac adeiladu strwythurau, archwilio deunyddiau cynaliadwy, a dysgu sut mae gwahanol rannau o fusnes yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect.

Darllenwch y stori llawn [ar ein wefan.]



*2 - Peilot Cyswllt Gyrfa yn ymweld ag ysgolion y rhanbarth.*




*3 - Peilot Cyswllt Gyrfa yn ymweld ag ysgolion y rhanbarth.*

## Sicrhau'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr yng Nghanolbarth Cymru

Yn ein colofnau gwadd diweddaraf gyda Business News Wales, mae Ceri Stephens, Cadeirydd grŵp clwstwr Gweithgynhyrchu Uwch Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, yn archwilio sut mae cyflogwyr, addysgwyr a phartneriaid sgiliau ledled Canolbarth Cymru yn cydweithio i ysbrydoli pobl ifanc, cryfhau llwybrau peirianneg, a sicrhau bod gan y rhanbarth y gweithlu medrus sydd ei angen i gefnogi twf yn y dyfodol mewn gweithgynhyrchu uwch a pheirianneg.

Darllenwch yr erthygl lawn ar wefan Business News Wales




Yn ogystal â hyn, rydym yn falch o rannu colofn wadd fewnweledol arall gan Andries Pretorius, crëwr Gyrfaoedd 360. Yn *Ailfeddwl arweiniad gyrfaoedd ar gyfer economi'r sylw,*

mae Andries yn archwilio sut mae angen i gymorth gyrfaoedd esblygu mewn marchnad lafur sy'n newid yn gyflym — yn enwedig wrth i sectorau digidol, creadigol a rhai sy'n cael eu gyrru gan sylw barhau i dyfu. Mae'r darn yn cynnig safbwyntiau newydd ar baratoi dysgwyr a cheiswyr gwaith heddiw ar gyfer dyfodol ym myd gwaith.

Darllenwch yr erthygl lawn ar wefan Business News Wales.






## Cefnogi Wythnos Prentisiaethau Cymru 2026

Darparodd Wythnos Prentisiaethau Cymru 2026, a gynhaliwyd rhwng 10 a 16 Chwefror 2026, gyfle pwysig i dynnu sylw at rôl hanfodol prentisiaethau wrth gefnogi twf busnes a datblygu talent y dyfodol ledled Canolbarth Cymru. Gweithiodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth ac annog ymgysylltiad gan gyflogwyr a dysgwyr, gan gynnwys hyrwyddo cyfres podlediadau bwrpasol gan Business News Wales yn archwilio manteision prentisiaethau, sut y gall busnesau ddechrau arni, a'r cyfleoedd gyrfa hirdymor y maent yn eu creu.

Fel Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, rydym yn dod â chyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant ynghyd i sicrhau bod darpariaeth sgiliau yn cyd-fynd ag anghenion yr economi ranbarthol. Drwy weithio'n agos gyda busnesau ar draws sectorau allweddol, rydym yn helpu i nodi anghenion sgiliau a chefnogi datblygiad llwybrau prentisiaeth o ansawdd uchel sy'n cryfhau cyfleoedd gyrfa lleol ac yn helpu cyflogwyr i adeiladu'r gweithlu sydd ei angen arnynt ar gyfer y dyfodol.

Mae adnoddau a chymorth allweddol ar gael drwy: Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW), Gyrfa Cymru, Llywodraeth Cymru, a chyfres podlediadau sgiliau Business News Wales.




## Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner

### Y cam cyntaf tuag at hybu gweithgynhyrchu gyda chanolfan ymchwil a pharc technoleg newydd

Mae cytundeb wedi'i tharo i baratoi'r ffordd ar gyfer canolfan uwch-weithgynhyrchu o'r radd flaenafar gyfer Canolbarth Cymru, a pharc busnes, i'w hadeiladu ar gyrion y Drenewydd.

Mae Cyngor Sir Powys (CSP) yn prynu 14 hectar o dir wrth ymyl Coleg y Drenewydd gan Grŵp Colegau NPTC ar gyfer y prosiect seilwaith nodedig.

Wedi'i leoli ar Heol Llanidloes, bydd y datblygiad yn cael ei adnabod fel Parc CymruTech. Bydd yn dod â Ganolfan Uwch-Weithgynhyrchu Canolbarth Cymru ynghyd ag unedau busnes hyblyg o ansawdd uchel, gan greu canolbwynt ar gyfer arloesi, sgiliau a thwf.

Bydd yr unedau ar gael i gwmnïau sy'n awyddus i ehangu neu adleoli i Ganolbarth Cymru, gan gefnogi a chryfhau'r cyfleuster ymchwil ac arloesi cyfagos.

Bydd CSP yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Bargen Twf Canolbarth Cymru, i sicrhau cyllid tuag at gostau cyfalaf y prosiect.


Ewch i'r adran newyddion ar wefan Cyngor Sir Powys am ragor o wybodaeth.





## Teithio Llesol yng Ngheredigion – dweud eich dweud

O deithiau bob dydd i gynllunio trafnidiaeth hirdymor — mae ymgynghoriad teithio llesol Ceredigion yn helpu i lywio'r gwaith trafnidiaeth rhanbarthol ehangach sy'n cael ei arwain drwy Gydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru, a'i gydlynu gan Tyfu Canolbarth Cymru. Rhannwch eich barn erbyn 22 Mawrth: https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/map-o-r-rhwydwaith-teithio-llesol-2026/




### Rhaglen Allforiwr Newydd

**Ehangwch eich gorwelion busnes**

Mae'r Rhaglen hon yn elfen allweddol o Gynllun Gweithredu Allforio Llywodraeth Cymru sy'n ffurfio rhan o'r ystod eang o gymorth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu allforion sydd ar gael i gwmnïau yng Nghymru.  Mae'r Rhaglen Allforwyr Newydd wedi'i chynllunio'n benodol i gynyddu nifer y busnesau micro, bach a chanolig yng Nghymru sy'n allforio yn rheolaidd ac yn gynaliadwy.

Mwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd?  Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau YouTube, LinkedIn ac Instagram:

www.instagram.com/growingmidwales/

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales